## Asesiad Effaith Cydraddoldeb Gweithdrefn 09: Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer

Gan: Beth Edwards
Dyddiad: 04 Rhagfyr 2025

| **Nod y Project** |
|---|
| *Beth mae'r project yn gobeithio ei gyflawni? (Nodwch y canlyniadau a'r manteision ariannol ac/neu anariannol).* |
| Mae'r weithdrefn Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer yn ceisio sicrhau bod proses deg, dryloyw a chyson ar waith i fyfyrwyr sy'n rhan o ymchwiliad addasrwydd / ffitrwydd i ymarfer tra bônt yn ymgymryd â rhaglen broffesiynol. Mae'r weithdrefn hon yn nodi'r prosesau a fydd yn cael eu dilyn, swyddogaethau a chyfrifoldebau staff a myfyrwyr, a llinellau amser. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y Project** | Asesiad Effaith Cydraddoldeb Gweithdrefn 09 |
| **Arweinydd y Project** | Beth Edwards |
| **Tîm y Project** | Kelly Fisher |

| **Beth yw effaith y project, y polisi neu'r ymarfer ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig?** |
|---|
| *O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i'r Brifysgol roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno. Y nodweddion gwarchodedig a nodir yn y ddyletswydd cydraddoldeb yw:* ***oedran, anabledd, ailbennu rhywedd (Traws), beichiogrwydd a mamolaeth, hil (ethnigrwydd), crefydd neu gred, rhyw (rhywedd)*** *a* ***chyfeiriadedd rhywiol*** *ac mae'r ddyletswydd hefyd yn berthnasol i ofalwyr. Mae'r gyfraith yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Brifysgol ddangos ei bod wedi rhoi 'sylw dyledus' i nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb yn ei phrosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau.* |

| **Gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** | **Tystiolaeth** | **Manylion yr Effaith (Cadarnhaol/Niwtral/Negyddol)** |
|---|---|---|
| **Dileu Gwahaniaethu**<br><br>• *A yw'r project yn debygol o drin rhywun yn llai ffafriol neu eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig?*<br>• *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at wahanol ganlyniadau i wahanol grwpiau gwarchodedig?* | Mae'r polisi yn mynnu'n benodol bod y prosesau'n anwahaniaethol, yn ddiduedd, ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a deddfwriaeth Diogelu Data.<br>Defnyddir panel amrywiol wrth adolygu achosion, gan gefnogi gwrthrychedd a lleihau'r risg o ragfarn.<br>Mae angen addasiadau rhesymol fesul achos, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr ag | Niwtral i Gadarnhaol, cyhyd â'i fod yn cael ei roi ar waith mewn modd cyson.<br><br>Mae risg bosibl o effaith negyddol os na chaiff cyflyrau iechyd meddwl neu cyflyrau iechyd corfforol eu hystyried gydag addasiadau priodol; a'u lliniaru trwy'r Gwasanaethau Llesiant a Chynwysoldeb a Chynlluniau Cefnogi Dysgu Personol. |

| | | |
|---|---|---|
| | anableddau, cyflyrau iechyd hirdymor, beichiogrwydd, neu gyflyrau iechyd meddwl. Gall pryderon ynghylch Addasrwydd i Ymarfer ddeillio o faterion sy'n gysylltiedig ag iechyd neu anabledd; fodd bynnag, mae'r Weithdrefn yn pwysleisio cefnogaeth gynnar ac addasiadau rhesymol cyn dod i unrhyw farn anffafriol.<br><br>Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Myfyrwyr Blynyddol diweddaraf yn nodi bod 25% o fyfyrwyr ym Mangor wedi dweud bod ganddynt anabledd, gan amlygu pa mor bwysig yw cymhwyso addasiadau mewn modd cyson.<br><br>Un o'r rhesymau dros leisio pryder yw ymddygiad ac agwedd broffesiynol. Mae safonau a disgwyliadau proffesiynol a meincnodau proffesiynol perthnasol wedi'u cynllunio yn rhan o gynnwys rhagarweiniol cyrsiau. Mewn achosion lle mae hyn yn bryder, mae cynlluniau gweithredu wedi'u rhoi ar waith yn y rhan fwyaf o achosion, gan olygu bod rhaid symud ymlaen i gam 2 y broses yn llai aml. Gellir defnyddio adfyfyrio gan y myfyriwr fel cam gweithredu o fewn y weithdrefn hon ar lefel yr Ysgol.<br><br>Roedd cyfran o achosion yn ymwneud â materion megis ffugio dogfennaeth neu gofnodion troseddol, sydd yn feysydd lle mae camau lliniaru mewn perthynas â chydraddoldeb yn gyfyngedig oherwydd gofynion rheoleiddio proffesiynol. | Mae dulliau diogelu clir yn bodoli i atal gwahaniaethu a sicrhau tegwch.<br><br>Gall mynnu bod myfyrwyr yn adrodd am newidiadau mewn amgylchiadau effeithio'n anghymesur ar fyfyrwyr ag anableddau neu gyflyrau iechyd meddwl penodol; fodd bynnag, mae'r gefnogaeth sydd ar gael, mesurau cyfrinachedd ac ymatebion hyblyg yn lleihau'r risg hon. |

| | | |
|---|---|---|
| | At ei gilydd, mae'r enghreifftiau o'r rhesymau pam nad yw rhywun yn addas / yn ffit i astudio (a ddiffinnir ym mhwynt 6 o'r Weithdrefn) yn amrywio. Er enghraifft, mewn un ysgol academaidd, ni ddefnyddiwyd 'cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol sydd, er gwaethaf addasiadau rhesymol neu driniaeth, yn effeithio ar addasrwydd myfyriwr i ymarfer' yn ystod blwyddyn academaidd 2024-2025. | |
| **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal**<br><br>• *A fydd anghenion y staff a'r myfyrwyr hynny sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cael eu bodloni?*<br>• *A allai'r project, y polisi neu'r ymarfer arwain at fwy o ymwneud/cyfranogiad gan grwpiau gwarchodedig?*<br>• *A oes unrhyw gyfleoedd i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwarchodedig penodol a/neu rhwng grwpiau gwarchodedig?* | Mae'r gweithdrefnau'n cynnwys cefnogaeth gan y Gwasanaethau Llesiant a Chynwysoldeb. Mae myfyrwyr sy'n datgelu bod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd yn cael eu cefnogi trwy'r broses Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol (PLSP), gan sicrhau y caiff addasiadau unigol eu rhoi ar waith sy'n cyd-fynd â gofynion y cwrs.<br><br>Mae cyfle i gael addasiadau rhesymol ac amserlenni hyblyg. Mae'r amserlenni a'r prosesau sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn hon ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni a lywodraethir gan gyrff proffesiynol, er enghraifft, Nyrsio, yn cynnwys rhoi ystyriaeth i addasiadau rhesymol.<br><br>Mae'r polisi'n berthnasol yn yr un modd i fyfyrwyr ar draws ystod eang o ddisgyblaethau proffesiynol, gan gefnogi mynediad cyfartal i broffesiynau. | **Cadarnhaol**<br>Mae'n cefnogi mynediad cyfartal i yrfaoedd proffesiynol drwy sicrhau mai dim ond pryderon ynghylch ymddygiad neu allu (ac nid statws gwarchodedig) sy'n cael eu hasesu.<br><br>Mae addasiadau rhesymol yn caniatáu i fyfyrwyr anabl neu fyfyrwyr â chyflyrau iechyd barhau â'u hastudiaethau lle bo'n briodol. Yn achos myfyrwyr sy'n datgan bod ganddynt anabledd, anghenion iechyd, neu resymau eraill dros fod angen cefnogaeth ychwanegol, cynigir cefnogaeth cyn dechrau ar eu hastudiaethau a rhoddir addasiadau priodol ar waith (gan roi ystyriaeth i ofynion y cwrs) trwy Gynllun Cefnogi Dysgu Personol (PLSP). |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae’n cynnwys darpariaethau ar gyfer canlyniadau amgen (e.e., trosglwyddo i raglen nad yw'n rhaglen â lleoliad).<br><br>Caiff nifer, achos a chanlyniadau’r achosion eu monitro gan ystyried nodweddion cydraddoldeb ac adroddir ar hynny trwy bwyllgorau’r sefydliad. Oherwydd bod y llinell adrodd honno’n bod, ni ddarperir yr wybodaeth honno yn y datganiad effaith hwn. | |
| **Hybu Perthynas Dda**<br><br>• *A oes camau wedi eu cymryd i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth?*<br>• *Sut mae unigolion, grwpiau neu gyrff perthnasol wedi eu cynnwys/wedi cael cyfle i roi eu barn wrth ddatblygu ac asesu effaith y project?* | Nod y polisi yw amddiffyn y cyhoedd a chynnal safonau proffesiynol, sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth mewn myfyrwyr sy'n dechrau mewn proffesiynau.<br><br>Mae cyfeiriad at gyrff rheoleiddio cenedlaethol mewn perthynas â rhwymedigaethau cydraddoldeb.<br><br>Mae’n darparu tryloywder ac atebolrwydd trwy brosesau strwythuredig a hawliau cynrychiolaeth. | Mae’n hyrwyddo uniondeb proffesiynol a hyder y cyhoedd mewn myfyrwyr o bob cefndir.<br><br>Mae’n annog triniaeth deg ac eglurder disgwyliadau.<br><br>Mae’r polisi’n hyrwyddo diwylliant o barch ac atebolrwydd, gan helpu i gynnal cysylltiadau da rhwng y Brifysgol, darparwyr lleoliadau, a chymunedau amrywiol. |

| **Ar sail yr asesiad uchod, pa gamau gweithredu sydd eu hangen?** | |
|---|---|
| **Does dim angen newid mawr**<br><br>*Nid yw'r asesiad wedi canfod unrhyw botensial i wahaniaethu nac effaith andwyol a chymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.* | Ni nodwyd unrhyw effaith andwyol, fodd bynnag, bydd y polisi'n parhau i gael ei adolygu yn unol â chanllawiau cenedlaethol a’r arferion gorau bob 3 blynedd o leiaf. |
| **Gwneud addasiadau er mwyn diddymu'r rhwystrau neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.**<br><br>*Nodi'r addasiadau a wneir i ddiddymu'r rhwystrau sydd wedi eu hadnabod yn yr asesiad neu i hyrwyddo cydraddoldeb yn well.* | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| **Parhau er ei bod yn bosib y bydd effeithiau negyddol neu y caiff cyfleoedd i hyrwyddo cydraddoldeb eu colli.**<br><br>*Nodi'r camau a gaiff eu cymryd i leihau neu i liniaru'r effeithiau andwyol.* | Amherthnasol |
| **Aros ac ailfeddwl**<br><br>*Mae'r asesiad yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosib. Nodi'r camau a gymerir i atal ac/neu ailfeddwl am y project.* | Amherthnasol |

| **Sut caiff effaith wirioneddol y project, y polisi neu'r ymarfer ei monitro unwaith y caiff ei weithredu?** |
|---|
| Mae monitro parhaus ac adroddiadau i Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn rhan o galendr blynyddol y brifysgol.<br>Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a gwneir unrhyw addasiadau rhesymol.<br><br>Adolygir y weithdrefn hon bob 3 blynedd gan y Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Ansawdd a Safonau. |

| **Cyhoeddi** |
|---|
| Cyhoeddir yr asesiad hwn o’r effaith ar gydraddoldeb ochr yn ochr â'r Weithdrefn ar wefan Prifysgol Bangor<br>https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy |